

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 5th September 2016** at 7.20 p.m.

PRESENT: - His Worship The Mayor, Councillor Dewi Williams
Councillors: - M Shultan (Chairman)
Mrs J Forsyth D Madge N Pickavance
Bryn Hughes Mrs J Marshall Mair Rowlands
J Wynn Jones R K Marshall E H Williams
D Llewelyn J M Martin

Officer: Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

76/16 APOLOGIES

Apologies for absence were received from The Deputy Mayor, Councillor D Hainge and Councillors Susan Ashworth, Mrs L Day, Mrs E Butler, Colin King and G O Roberts.

77/16 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

None declared.

78/16 URGENT BUSINESS

None.

79/16 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED: that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

C16/0802/11/LL Erection of a retaining wall and landscaping works. Wavecrest, Holyhead Road, Bangor. **No objection.**

C16/0812/11/LL Install 2 access ramps together with refurbishment of tennis court into a multi use games area, create access path and install flood lights. Normal Campus, Ffordd Gaergybi, Bangor. **No objection.**

C16/0814/11/CC Felling of trees protected by a tree preservation order. 21 Llys Adda, Penrhosgarnedd, Bangor. **Objection on the grounds that there appears to be no planning reason or other good reason to fell healthy trees under this Protection Order.**

C16/0903/11/HY Erection of two internal illuminated signs (one fascia and one projecting sign) W H Smith, 264 High Street, Bangor. **No objection.**

C16/0907/11/LL Change of use of the first and second floor from offices to 2 self contained flats. 282 High Street, Bangor. **No objection.**

C16/0909/11/CT Prior notification for tree works within a Conservation Area. St. James Vicarage, 14 Ffriddoedd Road, Bangor. **Some concern at further proposals at this site. The City Council asks that the Tree Officer ensures that no lasting damage is done and that no healthy trees are felled.**

C16/0917/11/HY Erection of new signage including: 2 fascia signs (cladding) externally lit, 1 internally lit hanging sign, 1 lettering sign (fascia) internally lit, 1 picture sign (fascia internally lit. KFC 286 High Street, Bangor. **No objection.**

C16/0920/11/CR Internal and external alterations to create 2 residential units. Church Hostel, Prince's Road, Bangor. **Deferred consideration – we would ask for further information on the number of actual units which are proposed are these added units to the original proposals for the site, will they be HMO's and are any trees affected.**

C16/0921/11/LL Change of use of building into 2 residential units. Church Hostel, Prince's Road, Bangor. **Deferred consideration – we would ask for further information on the number of actual units which are proposed are these added units to the original proposals for the site, will they be HMO's and are any trees affected.**

C16/0961/11/LL External works including alterations to the existing vehicular access, demolition of garden store, construction of new log and garden stores together with renovations-refurbishment of existing outbuildings. Windover, Meirion Road, Bangor. **No objection.**

C16/0978/11/LL Change of use of first floor on building from B1 (office) use to A3 (food and drink) together with various alterations to the building. KFC 286 High Street, Bangor. **No objection.**

C16/1013/11/HY Erection of internally illuminated totem sign. Lidl, High Street, Bangor. **No objection.**

Councillors Mrs June Marshall, as a Member of the Gwynedd Council Planning Committee, did not vote and took no part in the discussion the above applications apart from the applications within her own Ward.

80/16 HIGHWAY MATTERS

None.

81/16 LICENSING MATTERS

Licensing Act 2013 – Premises Licence –

Subhasish Mukherjee, T/A Uni, 55 Holyhead Road, Bangor – **No objection.**

B & M Stores, St David's Park, Caernarfon Road, Bangor – **No objection.**

The Meeting finished at 7.55 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 5^{ed} o Fedi, 2016** am 7.20 y.h.

PRESENNOL :-

Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd Dewi Williams		
Y Cynghorwyr	M Shultan (Cadeirydd)	
	Mrs J Forsyth	D Madge
	Bryn Hughes	Mrs J Marshall
	J Wynn Jones	R K Marshall
	D Llewelyn	J M Martin
		N Pickavance
		Mair Rowlands
		E H Williams

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

76/16 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Derek Hainge a'r Cynghorwyr Susan Ashworth, Mrs L Day, Mrs E Butler, Colin King a G O Roberts.

77/16 DATGANIAD O DDIDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

78/16 MATERION BRYD

Dim.

79/16 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C16/0802/11/LL Codi wal gynnal a gwaith tirweddu. Wavecrest, Ffordd Caergybi, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0812/11/LL Gosod 2 ramp mynediad ynghyd ag adnewyddu cwrt tennis i fod yn ardal gemau amldeffnydd, creu llwybr mynediad a gosod 4 llifoleuadau. Campws y Normal, Ffordd Caergybi, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0814/11/CC Torri coed a warchodir gan orchymyn gwarchod coed. 21 Llys Adda, Penrhosgarnedd, Bangor. **Gwrthwynebu ar y sail nad ymddengys fod rheswm cynllunio neu unrhyw reswm da arall dros gwmpo coed iach o dan y Gorchymyn Gwarchod hwn.**

C16/0903/11/HY Codi dau arwydd wedi eu goleuo'n fewnol (un arwydd ffasgia ac un arwydd crog) W H Smith, 264 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0907/11/LL Newid defnydd y llawr cyntaf a'r ail lawr o swyddfeydd i greu 2 fflat hunangynhaliol. 282 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0909/11/CT Hysbysiad ymlaen llaw ar gyfer gwaith i goed mewn ardal gadwraeth. Ficerdy St James, 14 Ffordd Ffriddoedd, Bangor. **Rhywfaint o bryder ynglŷn â chynigion pellach ar y safle hwn. Mae Cyngor y Dref yn gofyn i'r Swyddog Coed sicrhau nad oes difrod parhaol yn cael ei wneud ac nad oes unrhyw goed iach yn cael eu cwmpo.**

C16/0917/11/HY Gosod arwyddion newydd gan gynnwys: 2 arwydd ffasgia (cladin) wedi eu goleuo'n allanol, 1 arwydd crog wedi ei oleuo'n fewnol, 1 arwydd llythrennau (ffasgia) wedi ei oleuo'n fewnol, 1 arwydd darlun (ffasgia) wedi ei oleuo'n fewnol. KFC 286 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0920/11/CR Addasiadau mewnol ac allanol i greu 2 uned breswyl. Hostel yr Eglwys, Ffordd y Tywysog, Bangor. **Gohiriwyd ystyried hwn – hoffem gael gwybodaeth bellach ar union nifer yr unedau a gynigir, ydi'r rhain yn unedau ychwanegol at y cynigion gwreiddiol ar gyfer y safle, a fyddant yn unedau amlfeddiannaeth ac oes unrhyw goed yn cael eu heffeithio.**

C16/0921/11/LL Newid defnydd adeilad i 2 uned breswyl. Hostel yr Eglwys, Ffordd y Tywysog, Bangor. **Gohiriwyd ystyried hwn – hoffem gael gwybodaeth bellach ar union nifer yr unedau a gynigir, ydi'r rhain yn unedau ychwanegol at y cynigion gwreiddiol ar gyfer y safle, a fyddant yn unedau amlfeddiannaeth ac oes unrhyw goed yn cael eu heffeithio.**

C16/0961/11/LL Gwaith allanol gan gynnwys newidiadau i'r fynedfa gerbydol bresennol, dymchwel storfa gardd, codi storffeydd coed tân ac offer gardd ynghyd ag adnewyddu-ailwampio adeiladau allanol presennol. Windover, Ffordd Meirion, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/0978/11/LL Newid defnydd llawr cyntaf adeilad o ddefnydd B1 (swyddfa) i ddefnydd A3(bwyd a diod) ynghyd â newidiadau amrywiol i'r adeilad. KFC 286 Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C16/1013/11/HY Codi arwydd totem wedi'i oleuo'n fewnol. Lidl, Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Ni chymrodd y Cynghorydd Mrs J Marshall, sydd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt.

80/16 MATERION PRIFFYRDD - dim

81/16 CEISIADAU TRWYDDEDU

Deddf Trwyddedu 2013 - Trwydded Eiddo

Subhasish Mukherjee, T/A Uni, 55 Ffordd Caergybi, Bangor – **Dim gwrthwynebiad.**

B & M Stores, Parc Dewi Sant, Ffordd Caernarfon, Bangor – **Dim gwrthwynebiad.**

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.55 y.h.